**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd
Dydd Iau, 27 Ionawr 2022 am 3.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol: -

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R Williams | Y Cynghorydd J Barton |
| Y Cynghorydd D Grehan | Y Cynghorydd G Hughes |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd W Lewis |
| Y Cynghorydd W Owen | Y Cynghorydd S Powderhill |
| Y Cynghorydd J Williams | Y Cynghorydd D Williams |

## Swyddogion oedd yn bresennol :-

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

### 179 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud:

- Datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis fuddiant personol a rhagfarnus mewn perthynas â Chais 21/1453 – Newid defnydd o swyddfa i glinig milfeddygol, Swyddfa Plaid Lafur y Rhondda, Tŷ Rhydychen, Stryd Dunraven, Tonypandy.

“Mae'r ymgeisydd yn frawd i mi”

### 180 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

### 181 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL (CYMRU) 2015

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n

anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**182 COFNODION 02.12.21**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2021 yn rhai cywir.

**183 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**184 CAIS RHIF: 21/1198**

**Adeiladu 4 tŷ ar wahân a gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd cynllun ffin llinell goch diwygiedig 14/12/21), Tir ger Meddygfa'r Parc, Stryd Windsor, Trecynon, Aberdâr.**

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gohirio'r cais er mwyn cynnal Ymweliad Safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, er mwyn ystyried effaith y datblygiad arfaethedig o ran parcio a diogelwch y priffyrdd cyfagos.

**185 CAIS RHIF: 21/1480**

**Gosod adeilad ystafell ddosbarth dros dro, Ysgol Tŷ Coch, Buarth-y-Capel, Ynys-y-Bwl, Pontypridd.**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**186 CAIS RHIF: 21/0874**

**Ailraddio tir i ddarparu man gwastad ar gyfer hyfforddi ceffylau'r Ymgeisydd, Tir y tu ôl i 8 Brynderwen, Cilfynydd, Pontypridd.**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**187 CAIS RHIF: 21/1453**

**Newid defnydd o swyddfa i glinig milfeddygol, Swyddfa Plaid Lafur y Rhondda, Tŷ Rhydychen, Stryd Dunraven, Tonypandy.**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

(**Nodwch:** Ar yr adeg yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Barton y cyfarfod 3.25pm)

(**Nodwch:** Ar ôl datgan buddiant yn y cais uchod (Cofnod Rhif 179), gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma.)

**188 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio – mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a oedd wedi dod i law, Ceisiadau wedi eu Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer y cyfnod 03/01/2022 hyd at 14/01/2022.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**